

Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) - Adolygiad Gwella Ansawdd Mai 2022

Cynllun Gweithredu

Mae'r tabl isod yn nodi ymateb Grŵp Llandrillo Menai i argymhellion, cymeradwyaeth a chadarnhad a gyflwynwyd yn dilyn Adolygiad Gwella Ansawdd QAA o ddarpariaeth AU y Grŵp a gynhaliwyd fis Mai 2022.

1. Argymhellion

Argymhelliad	Gweithred a gyflawnwyd gan GLIM
Ffurfioli a gweithredu hyfforddiant priodol ar gyfer staff academaidd sefydledig i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn modd cyson.	<p>Cynhaliwyd x4 Gweithdy Ysgrifennu ABRh rhwng 1 a 5 o Fedi 2022 (digwyddiadau ailadrodd).</p> <p>Y gynulleidfa darged oedd arweinwyr Rhaglenni AU sy'n ysgrifennu Adolygiad Blynyddol o Raglenni (ABRh).</p> <p>Daeth 26 aelod o staff i un o'r sesiynau hyn.</p> <p>Roedd cynnwys y sesiwn yn cynnwys dull safonol o ysgrifennu'r ABRh, adolygiad o'r cwestiynau a ofynnir yn y ABRh a sut i gael mynediad at ddata allweddol a'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer y broses adolygu.</p> <p>Adolygwyd y gweithredoedd gyda Llywydd Undeb y Myfyrwyr AU drwy gyfarfodydd pwyllgor ac adborth.</p> <p>Canlyniad: Roedd lefel uwch o safoni a chysondeb yn amlwg wrth adolygu'r ABRh a gyflwynwyd fis Hydref 2022.</p>

2. Cymeradwyaeth a Chadarnhad

Cymeradwyaeth	Gweithred a gyflawnwyd gan GLIM
1.6 Lled a dyfnder gwasanaethau cefnogaeth i ddysgwyr sydd ar gael ar bob campws i bob myfyriwr. Mae hyn yn galluogi eu datblygiad academaidd, personol a phroffesiynol.	<p>Bydd GLIM yn parhau i gynnig cefnogaeth o ansawdd uchel yn seiliedig ar gampws drwy ein tîm Gwasanaethau i Ddysgwyr, y Cynghorydd Gyrfa AU a Swyddogion Cyfoethogi sydd newydd gael eu penodi.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae GLIM yn gweithio gyda HEFCW i beilota ac arwain gwaith datblygu pecyn cymorth ar gyfer AU mewn dilyniant graddedigion a chyflogadwyedd. Cynhelir y prosiect dros ddwy flynedd academaidd 22/23 - 23/24</p> <p>Mae pob cwrs Gradd Sylfaen yn parhau i wreiddio sgiliau cyflogadwyedd ac adfyfrio proffesiynol yn eu cwricwlwm. Yn ogystal â hyn bydd pob rhaglen sydd newydd gael ei ddilysu/ wedi cael ei ail ddilysu yn elwa ymhellach o ganllawiau Dilysu wedi'u diweddarau ar gwricwlwm dan</p>

	<p>arweiniad cyflogwr (gweler 3.3).</p> <p>Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr dros AU yn parhau i gwrdd â myfyrwyr ar gampysau GLIM er mwyn casglu barn myfyrwyr ac yn adrodd yn ôl i'r Grŵp Safonau Academaidd Addysg Uwch AU.</p>
<p>1.6 Y cyfleusterau dysgu ac addysgu cynhwysfawr, yn enwedig y defnydd o dechnoleg i ddarparu profiad dysgu cynhwysfawr i fyfyrwyr.</p>	<p>Bydd GLIM yn parhau i ddatblygu cryfder ei Hamgylchedd Dysgu Rhithwir drwy gynnal adolygiadau blynyddol a sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at offer TGC'h perthnasol, a hwyluso hygyrchedd.</p> <p>Yn ogystal â hyn, caiff adnoddau eu hystyried yn adolygiad cyfnodol Pearson yn 22/23.</p>
<p>3.1 Mae dull strategol y Grŵp i'r ddarpariaeth dysgu o bell ac ar-lein yn sicrhau profiad dysgu cynhwysfawr i fyfyrwyr.</p>	<p>Meysydd rhaglen i barhau i ymateb i anghenion myfyrwyr, gyda'r nod o wella mynediad drwy adnoddau dysgu ar-lein ac addysgu lle bo hynny'n briodol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i unigolion sy'n wynebu heriau mynediad ychwanegol i barhau i gymryd rhan mewn addysg.</p> <p>Mae GLIM yn datblygu dysgu hybrid ac ar-lein er mwyn ehangu cyfranogiad yn y ddarpariaeth Addysg Uwch. Enghraifft o hyn ydy ein rhaglen Tystysgrif L4 mewn Ymarfer Gofal Iechyd a ehangwyd ar-lein mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Disgwylir i'r cyrsiau newydd ddechrau fis Medi 2022 ac ym mis Ionawr 2023.</p>
<p>3.3 Mae cynnwys cyflogwyr ac arbenigwyr allanol eraill yn y broses o gynllunio a darparu rhaglenni yn gwella profiad galwedigaethol a dilyniant myfyrwyr mewn modd effeithiol.</p>	<p>Bydd GLIM yn parhau i gefnogi dyluniad a darpariaeth y cwricwlwm drwy grwpiau ffocws myfyrwyr, cyflogwyr a graddedigion er mwyn casglu adborth a chryfhau cyrsiau. Bydd staff yn parhau i weithio gyda chyflogwyr i gefnogi'r ddarpariaeth er enghraifft gyda briffiau byw, siaradwyr gwadd a lleoliadau gwaith.</p> <p>Bydd hyn yn parhau yn ystod y broses Ddilysu Ail-ddilysu, Adolygiad Cyfnodol Pearson a'r Adolygiad Blynyddol o'r Rhaglen.</p> <p>Mae gwybodaeth a chanllawiau i Staff wedi cael eu cryfhau yn sylweddol gyda'r canllawiau dilysu mewnol (21/22). Mae hyn yn cyd-fynd â nodau strategol y Grŵp ac yn cefnogi staff gyda chanllawiau ac enghreifftiau ar sut i ddatblygu darpariaeth dan arweiniad cyflogwr a phartneriaethau â chyflogwyr, er enghraifft drwy gynnig grwpiau cynghori cyflogwyr i gefnogi themâu dysgu seiliedig ar waith, datblygiad sgiliau digidol a dilyniant.</p>
<p>Cadarnhad</p>	<p>Gweithred a gyflawnwyd gan GLIM</p>
<p>1.3 Mae'r camau a gymerir i ymgysylltu ymhellach â'r mudiad myfyrwyr amrywiol yn golygu bod modd i'r Grŵp weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr a gwella profiad dysgu myfyrwyr.</p>	<p>Cynnwys cynllun Ffioedd a Mynediad a Monitro: parhau i weithio gyda Llywydd Undeb y Myfyrwyr AU a'r mudiad myfyrwyr ehangach fel rhan o'r Gynhadledd Myfyrwyr AU ar agweddau i wella cefnogaeth a chanllawiau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, sy'n cynnwys myfyrwyr o ardaloedd difreintiedig, rhai dros 23, Pobl Dduon a phobl o leiafrifoedd ethnig eraill, rhai rhan amser a rhai â phrofiad o</p>

	<p>ofal.</p> <p>Parhau i fonitro'r effaith a datblygu gweithgareddau o fewn y FAP i dargedu'r grwpiau hynny sydd â lefelau presenoldeb, cyrhaeddiad a chwblhau llwyddiannus is.</p> <p>Bydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr dros AU yn parhau i gwrdd â myfyrwyr ar gampysau GLIM a bydd yn ystyried arfer gorau gan ddarparwyr AU eraill er mwyn gweld sut gall GLIM ddatblygu profiad myfyrwyr ymhellach.</p> <p>Parhau i gefnogi dysgwyr 'sydd â phrofiad o ofal' drwy gynnig aelod penodol o staff i gynnig dolen rhwng y dysgwr, y Tiwtor Personol a gwasanaethau cefnogi allanol. Cynnig bwrseriau presenoldeb a dilyniant, cefnogi costau dathlu graddio a monitro a chefnogi dilyniant drwy ddarparu canllawiau manwl yn seiliedig ar y coleg a chanllawiau annibynnol drwy Gyrfa Cymru.</p>
<p>1.3 Mae'r gweithredoedd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gynyddu cyfleoedd galwedigaethol Addysg Uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau ar draws yr ardal.</p>	<p>Nododd Adolygiad AU a gynhaliwyd yn 2021 feysydd i ddatblygu cwricwlwm AU. Mae hyn yn cynnwys ehangu darpariaeth AU ar draws CLI, CM a CMD. Yn ystod 22/23 ystyrir datblygu darpariaeth ddwyieithog benodol, os bydd yn hyfyw, mewn gradd FdA Astudiaethau Plentyndod (CM), BSc (Anrh) mewn Chwaraeon (Hamdden Awyr Agored) a TAR (rhaglen llawn amser)</p> <p>Mae GLIM wedi gweithio'n agos gyda CCC i gynyddu rhaglenni GLIM a restrwyd ar gynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant ers 2019, bryd hynny roedd dau gwrs arno a chap ar dros 10 o geisiadau. Ychwanegodd GLIM chwe rhaglen yn 20/21 yn llwyddiannus, tynnwyd y cap. Yn 2021/22 cymeradwywyd pum rhaglen ychwanegol i gael eu rhestru ar gynllun Ysgoloriaeth Cymhelliant.</p> <p>Mae swyddogion cangen y Grŵp yn parhau i weithio gyda'r cyrsiau AU a nodwyd fel rhai sydd â'r potensial i wneud gwaith i gyrraedd safon foddhaol i gael eu hychwanegu at restr Ysgoloriaeth Cymhelliant CCC. Yn ystod 22/23 - y cyrsiau hyn yw cyrsiau AU yn CM mewn lechyd a Gofal Cymdeithasol ac FdA mewn Astudiaethau Plentyndod (yn ddibynnol ar ddilysu a chymeradwyo).</p> <p>Yn ystod 21/22 defnyddiodd GLIM Grantiau Bach CCC ar gyfer prosiect i gynnal ymchwil i'r rhwystrau sy'n atal myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg rhag cyflwyno gwaith ffurfiol drwy gyfrwng y Gymraeg. Canlyniad yr ymchwil oedd mai'r prif rwystr ydy prinder cylchgronau Cymraeg, yr amser ychwanegol mae cyfieithu gwaith yn ei gymryd yn feddyliol a diffyg hyder mewn ysgrifennu ffurfiol.</p> <p>Mae GLIM wedi cyflwyno prosiectau ychwanegol i gynllun Grantiau Bach 22/23 er mwyn parhau a'r gwaith yn y maes</p>

	<p>hwn, y cam nesaf fydd peilota cefnogaeth ar gyfer ysgrifennu Cymraeg.</p>
<p>1.4 Y datblygiadau sy'n digwydd drwy rôl y Swyddog Cofrestru Addysg Uwch a Gyrfaedd er mwyn sicrhau bod y broses gofrestru Addysg Uwch yn llinol a llyfn.</p>	<p>Mae Swyddog Cofrestru Addysg Uwch a Gyrfaedd GLIM yn parhau i weithio ar draws safleoedd a bydd yn gwella'r berthynas gyda Llywydd Undeb y Myfyrwyr - Addysg Uwch a'r Undeb ei hun.</p> <p>Mae GLIM yn adolygu ac yn gwella'r broses gofrestru ar gyfer 23/24 i gynnwys defnydd o fodel hybrid ehangach fel bod llai o rwystrau yn wynebu grwpiau lleiafrifol a grwpiau hyn wrth wneud cais am ddarpariaeth Addysg Uwch yn GLIM.</p>